



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 1409 (Cy. 311)

2020 No. 1409 (W. 311)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws a
Swyddogaethau Awdurdodau Lleol)
(Diwygio) (Cymru) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions and Functions of Local
Authorities) (Amendment) (Wales)
Regulations 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1219 (Cy. 276)) (y "prif Reoliadau") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1011 (Cy. 225)) (y "Rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol").

Mae'r diwygiadau i'r prif Reoliadau—

- (a) yn ei gwneud yn ofynnol, yn rheoliad newydd 19A(1) o'r prif Reoliadau, i fariâu, caffis, ffreturau, bwytai a thafarndai fod ar gau i gwsmeriaid rhwng 6.00 p.m. a 6.00 a.m. (ond mae'r cyfyngiad hwn yn ddarostyngedig i eithriadau penodol yn rheoliad newydd 19B, gan gynnwys mewn perthynas â llety gwyliau neu lety teithio ac ar gyfer gwleddoedd priodasau neu bartneriaethau sifil a archebwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym);
- (b) yn atal, yn rheoliad newydd 19A(2), unrhyw alcohol rhag cael ei werthu i'w yfed, neu rhag cael ei yfed, mewn bariau, caffis, ffreturau, bwytai a thafarndai (ond nid yw hyn yn atal alcohol rhag cael ei werthu i breswylwyr mewn llety gwyliau neu lety teithio fel rhan o wasanaeth ystafell (yn ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliad 20), nac yn atal preswylwyr rhag yfed alcohol yn eu hystafelloedd preifat);

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make amendments to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1219 (W. 276)) (the "principal Regulations") and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1011 (W. 225)) (the "functions of local authorities Regulations").

The amendments to the principal Regulations—

- (a) require, at new regulation 19A(1) of the principal Regulations, bars, cafes, canteens, restaurants and pubs to be closed to customers between 6.00 p.m. and 6.00 a.m. (though this restriction is subject to specific exceptions in new regulation 19B, including in relation to holiday or travel accommodation and for wedding or civil partnership receptions booked before these Regulations come into force);
- (b) prevent, at new regulation 19A(2), any alcohol being sold for consumption, or being consumed, in bars, cafes, canteens, restaurants and public houses (though this does not prevent alcohol being sold to residents in holiday or travel accommodation as part of room service (subject to requirements in regulation 20), or prevent residents from drinking alcohol in their private rooms);

- (c) yn ei gwneud yn ofynnol i fangroedd o dan do mewn lleoliadau adloniant ac atyniadau i ymwelwyr gau;
- (d) yn gwneud diwygiadau canlyniadol, mân ddiwygiadau neu ddiwygiadau technegol, gan gynnwys dirymu darpariaethau diangen a diwygio darpariaethau gorfodi amrywiol (gan gynnwys er mwyn darparu ei bod yn drosedd methu, heb esgus rhesymol, â chymryd mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre a ddyroddir o dan Atodlen 3 i'r prif Reoliadau).

Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol—

- (a) yn darparu i'r Rheoliadau ddod i ben ar 19 Chwefror 2020 yn lle 8 Ionawr 2020, er mwyn bod yn gyson â dyddiad dod i ben y prif Reoliadau;
- (b) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd digwyddiad, roi sylw i a all y digwyddiad arwain at bobl yn ymgynnull yn groes i reoliad 6 o'r prif Reoliadau a rhoi sylw i a all mwy na 15 o bobl (pan fo'r digwyddiad o dan do) neu 30 o bobl (pan fo yn yr awyr agored) fod yn bresennol yn y digwyddiad ar unrhyw un adeg;
- (c) yn rhoi y tu hwnt i amheuaeth, er bod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 wedi dod i ben, fod rhaid ystyried hysbysiadau cosb a ddyroddwyd o dan y Rheoliadau hynny wrth bennu swm hysbysiad cosb benodedig i'w ddyroddi o dan reoliad 19 o'r Rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol;
- (d) yn caniatáu i awdurdodau lleol ddwyn achosion am droseddau o dan y Rheoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

- (c) require indoor premises of entertainment venues and visitor attractions to close;
- (d) make consequential, minor or technical amendments, including revoking redundant provisions and amending various enforcement provisions (including to provide that it is an offence to fail, without reasonable excuse, to take measures specified in a premises improvement notice issued under Schedule 3 to the principal Regulations).

The amendments to the functions of local authorities Regulations—

- (a) provide for the Regulations to expire on 19 February 2020 instead of 8 January 2020, to align with the expiry date of the principal Regulations;
- (b) require a local authority, when deciding whether to give an event direction, to have regard to whether the event may result in people gathering in contravention of regulation 6 of the principal Regulations and to whether there may be more than 15 people (where the event is indoors) or 30 people (where it is outdoors) attending the event at any one time;
- (c) put beyond doubt that, despite the expiry of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020, penalty notices issued under those Regulations must be taken into account in determining the amount of a fixed penalty notice to be issued under regulation 19 of the functions of local authorities Regulations;
- (d) permit local authorities to bring proceedings for offences under the Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2020 Rhif 1409 (Cy. 311)

2020 No. 1409 (W. 311)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws a
Swyddogaethau Awdurdodau Lleol)
(Diwygio) (Cymru) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions and Functions of Local
Authorities) (Amendment) (Wales)
Regulations 2020**

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Approved by Senedd Cymru

Gwnaed 2 Rhagfyr 2020

Made 2 December 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru 3 Rhagfyr 2020*

Laid before Senedd Cymru 3 December 2020

Yn dod i rym am 6.00 p.m. ar 4 Rhagfyr 2020

*Coming into
force at 6.00 p.m. on 4 December 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45B, 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. ar 4 Rhagfyr 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 9—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “y tu allan i Gymru” rhodder “mewn ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau”;
- (b) ym mharagraff (2), ar ôl “ymadael â Chymru” mewnosoder “at ddibenion mynd i ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau neu aros mewn ardal o'r fath”;
- (c) ar y diwedd mewnosoder—

“(6) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr “ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau” yw —

- (a) ardal o Loegr y pennir neu y disgrifir am y tro yn Rhan 2 o Atodlen 4 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau) (Pob Haen) (Lloegr) 2020(2) ei bod o fewn ardal Haen 3;
- (b) ardal o'r Alban a bennir am y tro yn y tabl yn Atodlen 6 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cyfyngiadau a Gofynion) (Lefelau Lleol) (Yr Alban) 2020(3), pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel 3 neu Lefel 4;

(c) Gogledd Iwerddon.”

(3) Yn Rhan 4, hepgorer Pennod 3.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions and Functions of Local Authorities) (Amendment) (Wales) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force at 6.00 p.m. on 4 December 2020.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 9—

- (a) in paragraph (1), for “outside Wales” substitute a “in a restricted UK area”;
- (b) in paragraph (2), after “leave Wales” insert “for the purposes of entering or remaining in a restricted UK area”;
- (c) at the end insert—

“(6) For the purposes of this regulation, “restricted UK area” means—

- (a) an area of England for the time being specified or described in Part 2 of Schedule 4 to the Health Protection (Coronavirus, Restrictions) (All Tiers) (England) Regulations 2020(2) as being within the Tier 3 area;
- (b) an area of Scotland for the time being specified in the table in Schedule 6 to the Health Protection (Coronavirus) (Restrictions and Requirements) (Local Levels) (Scotland) Regulations 2020(3), where the table indicates it is a Level 3 or Level 4 area;
- (c) Northern Ireland.”

(3) In Part 4, omit Chapter 3.

(1) O.S. 2020/1219 (Cy. 276) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1237 (Cy. 279) ac O.S. 2020/1288 (Cy. 286).

(2) O.S. 2020/1374.

(3) O.S.A. 2020/344 fel y'i diwygiwyd gan O.S.A. 2020/347, O.S.A. 2020/374, O.S.A. 2020/389, O.S.A. 2020/392 ac O.S.A. 2020/400.

(1) S.I. 2020/1219 (W. 276) as amended by S.I. 2020/1237 (W. 279) and S.I. 2020/1288 (W. 286).

(2) S.I. 2020/1374.

(3) S.S.I. 2020/344 as amended by S.S.I. 2020/347, S.S.I. 2020/374, S.S.I. 2020/389, S.S.I. 2020/392 and S.S.I. 2020/400.

(4) Yn rheoliad 19, ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) O ran ei gymhwysiad i fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 10 i 12 o Atodlen 1, nid yw paragraff (1) ond yn gymwys i fangre sydd o dan do.”

(5) Ar ôl rheoliad 19 mewnosoder—

“Cyfyngiadau ar fusnesau bwyd a diod

19A.—(1) O ran person sy’n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir ym mharagraffau 5 i 7 o Atodlen 2—

- (a) ni chaiff agor ei fangre i gwsmeriaid cyn 6.00 a.m. bob dydd;
- (b) rhaid iddo gau’r fangre i gwsmeriaid am neu cyn 6.00 p.m. bob dydd.

(2) Ni chaiff y person sy’n gyfrifol am y busnes—

- (a) gwerthu na chyflenwi alcohol i’w yfed yn ei fangre;
- (b) caniatáu i alcohol gael ei yfed yn y fangre.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae ardal sy’n gyfagos i fangre’r busnes lle y mae seddi yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid y busnes (pa un ai gan y busnes ai peidio) i’w thrin fel rhan o fangre’r busnes hwnnw.

(4) Pan fo—

- (a) person sy’n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraffau 5 i 7 o Atodlen 2 (“busnes A”) yn ddarostyngedig i ofyniad neu gyfyngiad o dan y rheoliad hwn, a
- (b) busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy (“busnes B”),

cydymffurfir â’r gofyniad neu’r cyfyngiad os yw’r person sy’n gyfrifol am gynnal busnes B yn cydymffurfio â’r gofyniad neu’r cyfyngiad.

Cyfyngiadau ar fusnesau bwyd a diod: eithriadau

19B.—(1) Nid yw rheoliad 19A(1) yn gymwys i—

- (a) mangre mewn—
 - (i) porthladd môr;
 - (ii) maes awyr;
 - (iii) sefydliad addysgol;
 - (iv) ysbyty neu gartref gofal;

(4) In regulation 19, after paragraph (1) insert—

“(1A) In its application to a business or service listed in paragraphs 10 to 12 of Schedule 1, paragraph (1) only applies to premises that are indoors.”

(5) After regulation 19 insert—

“Restrictions on food and drink businesses

19A.—(1) A person responsible for carrying on a business or providing a service listed in paragraphs 5 to 7 of Schedule 2—

- (a) may not open its premises to customers before 6.00 a.m. each day;
- (b) must close the premises to customers at or before 6.00 p.m. each day.

(2) The person responsible for the business may not—

- (a) sell or supply alcohol for consumption on its premises;
- (b) permit the consumption of alcohol on the premises.

(3) For the purposes of this regulation, an area adjacent to the premises of the business where seating is made available for customers of the business (whether or not by the business) is to be treated as part of the premises of that business.

(4) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business listed in paragraphs 5 to 7 of Schedule 2 (“business A”) is subject to a requirement or restriction under this regulation, and
- (b) business A forms part of a larger business (“business B”),

the requirement or restriction is complied with if the person responsible for carrying on business B complies with the requirement or restriction.

Restrictions on food and drink businesses: exceptions

19B.—(1) Regulation 19A(1) does not apply to—

- (a) premises located in—
 - (i) a sea port;
 - (ii) an airport;
 - (iii) an educational establishment;
 - (iv) a hospital or care home;

- (b) ffreuturau yn y gweithle, pan na fo dewis ymarferol arall i bobl yn y gweithle hwnnw gael bwyd rhwng 6.00 p.m. a 6.00 a.m.;
- (c) mangre a ddefnyddir ar gyfer darparu bwyd neu ddiod i bersonau digartref.
- (2) Nid yw rheoliad 19A(1) yn atal mangre rhag cael ei defnyddio i werthu neu gyflenwi bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre.
- (3) Os—
- (a) yw dathliad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil yn cael ei gynnal mewn mangre y mae rheoliad 19A yn gymwys iddi, a
- (b) archebwyd y dathliad cyn 6.00 p.m. ar 4 Rhagfyr 2020,
- caiff y fangre, er gwaethaf rheoliad 19A(1)(b), aros ar agor tan 10.00 p.m. at ddibenion cynnal y dathliad.
- (4) Mae paragraffau (5) a (6) yn gymwys pan fo mangre busnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 5 i 7 o Atodlen 2 (“y fangre o dan gyfyngiadau”) yn ffurfio rhan o fangre llety gwyliau neu lety teithio.
- (5) Nid yw rheoliad 19A(1)—
- (a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r fangre o dan gyfyngiadau fod ar gau i breswylwyr y llety gwyliau neu'r llety teithio;
- (b) yn atal gwerthu bwyd neu ddiod i breswylwyr—
- (i) fel rhan o wasanaeth ystafell, neu
- (ii) rhwng 6.00 a.m. a 10.00 p.m. mewn unrhyw ran o fangre'r llety gwyliau neu'r llety teithio.
- (6) Nid yw rheoliad 19A(1) na (2)—
- (a) yn atal preswylwyr rhag bwyta bwyd neu yfed diod (gan gynnwys alcohol) ar unrhyw adeg yn eu hystafell breifat;
- (b) yn atal gwerthu alcohol i breswylwyr fel rhan o wasanaeth ystafell (ond gweler rheoliad 20).”
- (6) Yn rheoliad 20—
- (a) hepgorer paragraffau (2) i (5);
- (b) ym mharagraff (6), yn lle “Nid yw paragraffau (1) a (2) yn caniatáu i'r fangre fod ar agor, nac” rhodder “Nid yw paragraff (1) yn caniatáu”;
- (c) hepgorer paragraff (7).
- (b) workplace canteens, where there is no practical alternative for people at that workplace to obtain food between 6.00 p.m. and 6.00 a.m.;
- (c) premises used for the provision of food or drink to homeless persons.
- (2) Regulation 19A(1) does not prevent premises being used to sell or supply food or drink for consumption off the premises.
- (3) If—
- (a) the celebration of a marriage or formation of a civil partnership is being held on premises to which regulation 19A applies, and
- (b) the celebration was booked before 6.00 p.m. on 4 December 2020,
- the premises may, despite regulation 19A(1)(b), remain open until 10.00 p.m. for the purposes of holding the celebration.
- (4) Paragraphs (5) and (6) apply where premises of a business or service listed in paragraphs 5 to 7 of Schedule 2 (“the restricted premises”) form part of the premises of holiday or travel accommodation.
- (5) Regulation 19A(1) does not—
- (a) require the restricted premises to be closed to the residents of the holiday or travel accommodation;
- (b) prevent the sale of food or drink to residents—
- (i) as part of room service, or
- (ii) between 6.00 a.m. and 10.00 p.m. in any part of the premises of the holiday or travel accommodation.
- (6) Neither regulation 19A(1) nor (2)—
- (a) prevents residents from consuming food or drink (including alcohol) at any time in their private room;
- (b) prevents the sale of alcohol to residents as part of room service (but see regulation 20).”
- (6) In regulation 20—
- (a) omit paragraphs (2) to (5);
- (b) in paragraph (6), for “Paragraphs (1) and (2) do not allow the premises to be open, or” substitute “Paragraph (1) does not allow”;
- (c) omit paragraph (7).

- (7) Yn rheoliad 25(3)—
- (a) ar ôl “19(1),” mewnosoder “19A(1) neu (2),”;
 - (b) yn lle “20(1) neu (2)” rhodder “20(1)”.
- (8) Yn rheoliad 28(4), yn lle “, 14(2) neu 18A(3)” rhodder “neu 14(2)”.
- (9) Yn rheoliad 31(4), yn lle “, 14(2) neu 18A(3)” rhodder “neu 14(2)”.
- (10) Yn rheoliad 32, ar y diwedd mewnosoder—
- “(4) Ni chaiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf fel annedd breifat onid yw’r swyddog gorfodaeth yn gwnstabl.”
- (11) Yn rheoliad 34—
- (a) ym mharagraff (1), hepgorer “, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu ateb unrhyw gwestiwn y mae’r swyddog yn ystyried ei bod neu ei fod yn berthnasol i arfer y pŵer”;
 - (b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—
- “(1A) Caiff camau gweithredu a gymerir o dan baragraff (1) gynnwys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu ateb unrhyw gwestiwn y mae’r swyddog yn ystyried—
- (a) ei bod neu ei fod yn angenrheidiol er mwyn galluogi’r swyddog i benderfynu pa un ai i arfer pŵer a roddir i’r swyddog gan y Rhan hon, neu
 - (b) ei bod neu ei fod yn berthnasol fel arall i arfer pŵer o’r fath.”
- (12) Yn rheoliad 35—
- (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) yn is-baragraff (a), hepgorer “18A(3),”;
 - (ii) yn is-baragraff (b)—
 - (aa) ar ôl “19(1),” mewnosoder “19A(1) neu (2),”;
 - (bb) yn lle “20(1) neu (2)” rhodder “20(1)”;
 - (b) ym mharagraff (5), o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—
- “(za) heb esgus rhesymol, yn methu â chymryd y mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre a ddyroddir o dan baragraff 1(1) o Atodlen 3 o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad,”.
- (7) In regulation 25(3)—
- (a) after “19(1),” insert “19A(1) or (2),”;
 - (b) for “20(1) or (2)” substitute “20(1)”.
- (8) In regulation 28(4), for “, 14(2) or 18A(3)” substitute “or 14(2)”.
- (9) In regulation 31(4), for “, 14(2) or 18A(3)” substitute “or 14(2)”.
- (10) In regulation 32, at the end insert—
- “(4) An enforcement officer may enter premises used wholly or mainly as a private dwelling only if the enforcement officer is a constable.”
- (11) In regulation 34—
- (a) in paragraph (1), omit “, including requiring any person to give any information or answer any question the officer considers to be relevant to the exercise of the power”;
 - (b) after paragraph (1) insert—
- “(1A) Action taken under paragraph (1) may include requiring any person to give any information or answer any question the officer considers—
- (a) necessary to enable the officer to determine whether to exercise a power conferred on the officer by this Part, or
 - (b) is otherwise relevant to the exercise of such a power.”
- (12) In regulation 35—
- (a) in paragraph (1)—
 - (i) in sub-paragraph (a), omit “18A(3),”;
 - (ii) in sub-paragraph (b)—
 - (aa) after “19(1),” insert “19A(1) or (2),”;
 - (bb) for “20(1) or (2)” substitute “20(1)”;
 - (b) in paragraph (5), before sub-paragraph (a) insert—
- “(za) without reasonable excuse, fails to take the measures specified in a premises improvement notice issued under paragraph 1(1) of Schedule 3 within the time limit specified in the notice,”.

(13) Yn lle rheoliad 42(1) rhodder—

“**42.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir mewn cysylltiad â throedd honedig—

(a) o dorri—

(i) rheoliad 19(1), 19A(1) neu (2), neu 20(1), neu

(i) paragraff 3(1) o Atodlen 3, neu

(b) o dan reoliad 35(5)(za),

(y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn fel “troedd busnes honedig”).”

(14) Yn rheoliad 46(1)(c)(i), yn lle “neu 20(1) neu (2)” rhodder “, 19A(1) neu (2), neu 20(1)”.

(15) Yn Atodlen 1, ar y diwedd mewnosoder—

“**5.** Neuaddau bingo.

6. Aliau bowlio, arcedau diddanu a mamau chwarae o dan do.

7. Casinos.

8. Sinemâu.

9. Canolfannau sglefrio.

10. Ffeiriau pleser, parciau diddanu a pharciau thema.

11. Amgueddfeydd ac orielau.

12. Atyniadau i ymwelwyr.”

(16) Yn Atodlen 2—

(a) hepgorer paragraffau 13, 14, 17, 18, 25, 33 a 38;

(b) ym mharagraff 30, ar ôl “Llyfrgelloedd” mewnosoder “a gwasanaethau archifau”;

(c) ym mharagraff 45, yn lle “Atyniadau i ymwelwyr a busnesau” rhodder “Busnesau”;

(d) ar ôl paragraff 45 mewnosoder—

“**45A.** Busnes neu wasanaeth a restrir yn Atodlen 1 i’r graddau y caniateir i’r fangre—

(a) bod ar agor yn rhinwedd rheoliad 19(1A), neu

(b) cael ei defnyddio yn rhinwedd rheoliad 19(2).”

(17) Yn Atodlen 3, ym mharagraff 2, ar y diwedd mewnosoder—

“(8) Pan fo—

(a) swyddog gorfodaeth yn ystyried bod person cyfrifol wedi methu â chymryd y mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre o fewn y terfyn amser penodedig, a

(13) For regulation 42(1) substitute—

“**42.**—(1) This regulation applies to a fixed penalty notice issued in respect of an alleged offence—

(a) of contravening—

(i) regulation 19(1), 19A(1) or (2), or 20(1), or

(i) paragraph 3(1) of Schedule 3, or

(b) under regulation 35(5)(za),

(referred to in this regulation as an “alleged business offence”).”

(14) In regulation 46(1)(c)(i), for “or 20(1) or (2)” substitute “, 19A(1) or (2), or 20(1)”.

(15) In Schedule 1, at the end insert—

“**5.** Bingo halls.

6. Bowling alleys, amusement arcades and indoor play areas.

7. Casinos.

8. Cinemas.

9. Skating rinks.

10. Funfairs, amusement parks and theme parks.

11. Museums and galleries.

12. Visitor attractions.”

(16) In Schedule 2—

(a) omit paragraphs 13, 14, 17, 18, 25, 33 and 38;

(b) in paragraph 30, after “Libraries” insert “and archive services”;

(c) in paragraph 45, for “Visitor attractions and holiday” substitute “Holiday”;

(d) after paragraph 45 insert—

“**45A.** A business or service which is listed in Schedule 1 to the extent that the premises are permitted to be—

(a) open by virtue of regulation 19(1A), or

(b) used by virtue of regulation 19(2).”

(17) In Schedule 3, in paragraph 2, at the end insert—

“(8) Where—

(a) an enforcement officer considers that a responsible person has failed to take the measures specified in a premises improvement notice within the specified time limit, and

- (b) naill ai—
- (i) hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throedd honedig o dan reoliad 35(5)(za), neu
 - (ii) achos wedi ei ddwyn am drosedd o'r fath,

mewn perthynas â'r methiant hwnnw, caiff y swyddog gorfodaeth serch hynny ddyroddi hysbysiad cau mangre o dan is-baragraff (1).”

- (b) either—
- (i) a fixed penalty notice has been issued in respect of an alleged offence under regulation 35(5)(za), or
 - (ii) proceedings have been brought for such an offence,

in relation to that failure, the enforcement officer may nevertheless issue a premises closure notice under sub-paragraph (1).”

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

3.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), yn lle “8 Ionawr” rhodder “19 Chwefror”.

(3) Yn rheoliad 6—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Wrth ystyried a yw'r amodau iechyd y cyhoedd wedi eu bodloni, rhaid i awdurdod lleol, yn benodol, roi sylw i—

- (a) a yw pobl yn ymgynnull, neu'n debygol o ymgynnull, yn y digwyddiad yn groes i reoliad 6 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020;
- (b) pan fo'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do, a yw mwy na 15 o bobl yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol;
- (c) pan fo'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored, a yw mwy na 30 o bobl yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol.”;

(b) ar ôl paragraff (7), mewnosoder—

“(8) At ddibenion paragraff (2), mae digwyddiad i'w drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan do os yw'n cael ei gynnal mewn mangre sy'n gaeddig neu'n sylweddol gaeddig o fewn yr

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020

3.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 3(1), for “8 January” substitute “19 February”.

(3) In regulation 6—

(a) for paragraph (2) substitute—

“(2) In considering whether the public health conditions are met, a local authority must, in particular, have regard to—

- (a) whether people are gathering, or are likely to gather, at the event in contravention of regulation 6 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020;
- (b) where the event is held wholly or mainly indoors, whether more than 15 people are, or are likely to be, in attendance;
- (c) where the event is held wholly or mainly outdoors, whether more than 30 people are, or are likely to be, in attendance.”;

(b) after paragraph (7), insert—

“(8) For the purposes of paragraph (2), an event is to be treated as being held indoors if it is held in premises which are enclosed or substantially enclosed within the meaning given

(1) O.S. 2020/1011 (Cy. 225) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1100 (Cy. 250), O.S. 2020/1149 (Cy. 261) ac O.S. 2020/1219 (Cy. 276).

(1) S.I. 2020/1011 (W. 225) as amended by S.I. 2020/1100 (W. 250), S.I. 2020/1149 (W. 261) and S.I. 2020/1219 (W. 276).

ystyr a roddir gan reoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(1).”

(4) Yn rheoliad 17, ar y diwedd mewnosoder—

“(4) Ni chaiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf fel annedd breifat onid yw’r swyddog gorfodaeth yn gwnstabl.”

(5) Yn rheoliad 19(10), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(c) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020(2);”

(6) Yn rheoliad 20, ar ôl “Cyhoeddus” mewnosoder “, awdurdod lleol”.

by regulation 2 of the Smoke-free Premises etc. (Wales) Regulations 2007(1).”

(4) In regulation 17, at the end insert—

“(4) An enforcement officer may enter premises used wholly or mainly as a private dwelling only if the enforcement officer is a constable.”

(5) In regulation 19(10), after sub-paragraph (b) insert—

“(c) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020(2);”

(6) In regulation 20, after “Prosecutions” insert “, a local authority”.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
2 Rhagfyr 2020

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

First Minister, one of the Welsh Ministers
2 December 2020

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2007/787 (Cy. 68).
(2) O.S. 2020/1149 (Cy. 261).

(1) S.I. 2007/787 (W. 68).
(2) S.I. 2020/1149 (W. 261).

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1409>

ISBN 978-0-348-11929-9



9 780348 119299